Adnoddau Ddynol
Human Resources

Cod Ymarfer ynglŷn â'r Polisi Recriwtio Cyn-droseddwyr

Cofnod Rheoli'r Ddogfen	
Teitl y Ddogfen	Cod Ymarfer ynglŷn â'r Polisi Recriwtio Cyn-droseddwyr
Rhif y Fersiwn	2
Perchennog	Adnoddau Dynol
Dyddiad Cymeradwyo	26/08/2026
Llwybr Cymeradwyo	Weithgor ar y Cyd
Noddwr Gweithredol	Prif Swyddog Pobl
Dyddiad Gweithredu	

Teitl

Cynnwys

1. Cyflwyniad 1
1.1 Ymdriniaeth 2
1.2 I bwy y mae'r polisi'n berthnasol 2
2. Rhagor o wybodaeth am Wybodaeth am Euogfarnau (rheolau hidlo DBS) 2
3. Datganiad 3
4. Ymrwymiad i Driniaeth Deg 3
5. Recriwtio a Gwiriadau DBS 4
6. Cyfweliad a Thrafodaethau Datgelu 4
7. Cod Ymarfer y DBS 4

1. Cyflwyniad

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi ymrwymo i hyrwyddo cyfle cyfartal ac yn gwerthfawrogi'r sgiliau amrywiol, y ddawn a'r potensial sydd gan bob unigolyn. Rydym yn croesawu ceisiadau gan amrywiaeth eang o ymgeiswyr, gan gynnwys y rhai sydd â chofnodion troseddol.

Mae'r polisi hwn yn nodi dull y Brifysgol o recriwtio unigolion ag euogfarnau troseddol ac mae'n berthnasol i bob rôl y mae angen gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar eu cyfer. Mae'n sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth berthnasol a Chod Ymarfer y DBS, ac yn trin pob ymgeisydd yn deg.

Nid yw'r polisi hwn yn rhan o gontract cyflogaeth unrhyw weithiwr a gellir ei ddiwygio ar unrhyw adeg.

1.1 Ymdriniaeth

- Trin gwybodaeth am euogfarnau troseddol yn ystod recriwtio.
- Defnyddio gwiriadau DBS lle caniateir neu y bo'n ofynnol yn gyfreithiol.
- Cydymffurfio â Gorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau).
- Rheolau hidlo'r DBS sy'n ymwneud ag euogfarnau a rhybuddion troseddol.

1.2 I bwy y mae'r polisi'n berthnasol

- Pob ymgeisydd ar gyfer rolau sy'n gofyn am wiriad DBS.
- Staff sy'n ymwneud â recriwtio, gan gynnwys AD, Rheolwyr Llinell, a Thimau Recriwtio.

2. Rhagor o wybodaeth am Wybodaeth am Euogfarnau (rheolau hidlo DBS)

Ar 29 Mai 2013, daeth deddfwriaeth i rym sy'n caniatáu i rai rhybuddion ac euogfarnau hen a mân beidio â bod yn destun datgeliad mwyach.

Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol:

- Bod rhai rhybuddion ac euogfarnau hen a mân bellach yn cael eu hidlo gan y DBS ac ni fyddant yn ymddangos ar dystysgrif DBS.
- Ni ddylai cyflogwyr wneud cais i weld, nac ystyried, rhybuddion neu euogfarnau a hidlwyd (h.y. *gwarchodedig*) wrth wneud penderfyniadau recriwtio.
- Bydd pob euogfarn sy'n arwain at ddedfryd o garchar, p'un a yw'n ohiriedig ai peidio, bob amser yn cael ei datgelu.
- Bydd rhybuddion neu euogfarnau am rai troseddau difrifol penodedig, yn enwedig y rhai sy'n berthnasol i ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed, hefyd bob amser yn cael eu datgelu.

- Gall unigolion gyfeirio at ganllawiau'r DBS i gael manylion llawn ynghylch pa droseddau sy'n destun hidlo a'r meini prawf ar gyfer hidlo.

Gall ymgeiswyr weld canllawiau hidlo'r DBS ar-lein i ddeall beth y dylid ei ddatgelu ac na ddylid ei ddatgelu wrth wneud cais am swyddi sy'n gofyn am wiriadau DBS.

3. Datganiad

Fel sefydliad sy'n asesu addasrwydd ymgeiswyr ar gyfer swyddi sydd wedi'u cynnwys yng Ngorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) gan ddefnyddio gwiriadau cofnodion troseddol a brosesir drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), mae Prifysgol Aberystwyth yn cydymffurfio'n llawn â Chod Ymarfer y DBS ac yn ymrwymo i drin pob ymgeisydd yn deg.

Mae Prifysgol Aberystwyth yn ymrwymo i beidio â gwahaniaethu'n annheg yn erbyn unrhyw un sy'n destun gwiriad cofnod troseddol ar sail euogfarn neu wybodaeth arall a ddatgelwyd.

Gall Prifysgol Aberystwyth ond ofyn i ymgeisydd ddarparu manylion am euogfarnau a rhybuddion y mae gan y Brifysgol hawl gyfreithiol i wybod amdanynt. Bydd ymgeiswyr yn cael gwybod os bydd angen y wybodaeth hon fel rhan o'r broses recriwtio. Dim ond pan gaiff ei ganiatáu'n gyfreithiol y gofynnir am wiriad DBS Safonol neu Fanylach, gan gynnwys lle mae'r rôl yn cael ei gwmpasu gan Orchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975, fel y'i diwygiwyd, a, lle bo'n berthnasol, Rheoliadau Deddf yr Heddlu perthnasol, fel y'u diwygiwyd.

Bydd Prifysgol Aberystwyth ond yn gofyn i unigolyn am euogfarnau a rhybuddion nad ydynt wedi'u diogelu o dan reolau hidlo'r DBS.

4. Ymrwymiad i Driniaeth Deg

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi ymrwymo i drin ei staff, ei darpar staff, a defnyddwyr ei gwasanaethau, yn deg, ni waeth beth fo eu: hil, rhywedd, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol, cyfrifoldebau ar gyfer dibynyddion, oedran, anabledd corfforol neu feddyliol.

Mae'r Brifysgol yn hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb gyda'r cymysgedd cywir o ddoniau, sgiliau a photensial, ac yn croesawu ceisiadau gan ystod eang o ymgeiswyr, gan gynnwys y rhai sydd â chofnodion troseddol.

Dewisir yr holl ymgeiswyr i'w cyfweld ar sail eu sgiliau, eu cymwysterau, a'u profiad.

5. Recriwtio a Gwiriadau DBS

Dim ond ar ôl i asesiad nodi ei fod yn gymesur ac yn berthnasol i'r sefyllfa dan sylw y bydd cais am wiriad cofnod troseddol yn cael ei gyflwyno i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (gan gynnwys gwasanaeth diweddaru DBS).

Pan fo angen gwiriad DBS:

- Bydd hyn yn cael ei nodi'n glir mewn hysbysebion swyddi, ffurflenni cais, a briffiau recriwtio.
- Rhoddir gwybod i ymgeiswyr y bydd angen tystysgrif DBS arnynt os cynigir y swydd iddynt.

Mae Prifysgol Aberystwyth yn sicrhau bod staff AD perthnasol yn cael eu hyfforddi'n briodol ac yn cael canllawiau priodol i asesu perthnasedd ac amgylchiadau troseddau a ddatgelir yn ystod y broses recriwtio. Bydd rheolwyr recriwtio yn cael eu cefnogi gan AD wrth ystyried gwybodaeth am gofnodion troseddol.

Bydd staff AD perthnasol hefyd yn derbyn arweiniad a hyfforddiant priodol ar y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â recriwtio a chyflogi pobl sydd â chofnodion troseddol, gan gynnwys Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 a Gorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975, lle bo'n berthnasol.

6. Cyfweliad a Thrafodaethau Datgelu

Mewn cyfweliad, neu mewn trafodaeth ar wahân, bydd y Brifysgol yn sicrhau bod trafodaeth agored a phwyllog yn cael ei chynnal am unrhyw droseddau a ddatgelir drwy’r llwybr ymgeisio, neu unrhyw fater arall a allai fod yn berthnasol i'r swydd.

Mae'r Brifysgol yn hysbysu pob ymgeisydd sy'n cael gwiriad DBS o fodolaeth Cod Ymarfer y DBS ac yn darparu copi ar gais.

Bydd unrhyw wybodaeth a ddatgelir ar dystysgrif DBS yn cael ei thrafod gyda'r ymgeisydd cyn i gynnig amodol o gyflogaeth gael ei dynnu'n ôl.

Byddai peidio â datgelu gwybodaeth sy'n uniongyrchol berthnasol i'r swydd y gwneir cais amdani yn gallu arwain at dynnu'r cynnig o gyflogaeth yn ôl.

7. Cod Ymarfer y DBS

Mae’r Brifysgol yn tynnu sylw pawb sy'n destun gwiriad DBS at Gôd Ymarfer y DBS trwy nodi hyn ar y dudalen recriwtio, ac yn darparu copi ohono os gwneir cais am hynny.

Diwedd y ddogfen